COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 10 o IONAWR 2022 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Linda Williams (yn y gadair),Alan Lewis,Tyssul Evans,Ian Evans,Caroline Williams,Margaret Rees a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Aled Williams,Geraint Rosser,Meic Bowen,Tracey James a Geoff Hewitt.

2725 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cyfeiriwyd at dostrwydd Heddwyn Jones a Geraint Rosser a dymunwyd adferiad buan iddynt.

2726 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 06/12/2021 fel rhai cywir.

2727 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2707 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Cafwyd ymateb oddiwrth y Cyngor Sir. Deallwyd bod y Cyngor Sir trwy'r Tim Gorfodi Cynllunio yn gwneud ymchwiliad i'r sefyllfa. Yn y cyfamser nodwyd bod wal ffrynt y Clwb yn dod yn rhydd a gofynnir i'r perchennog dymchwel yr adeilad ar frys.
Tud 1. Cofnod Rhif 2707 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.
Tud 1. Cofnod Rhif 2707 - Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ymateb oddiwrth Phil Wait.
Tud 1. Cofnod Rhif 2707 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2707 - Meddygfa'r Sarn,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa.
Tud 1. Cofnod Rhif 2707 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2707 – Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2728 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Coeden Nadolig – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2729 Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2730 CISS – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2731 Tenovus Cancer Care – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2732 Apêl Nadolig y Cyngor Sir - Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2733 Glastir Coed Ffoslas - Cais am blannu rhagor o Goed. Penderfynwyd cydymffurfio a'r cais.

2734 Cyngor Sir Gar - Arolwg Etholiadol a'r Etholiadau Cynghorau Cymuned - Penderfynwyd gwneud cais am 4ydd.Cynghorwr Cymunedol dros Ward Carwe.(Nifer o Etholwyr wedi cynyddu)

Ceisiadau Cynllunio

2735

a) Rhif y Cais - PL/03193 - Brynbach,Llangyndeyrn- Stablau - Dim Gwrthwynebiad.

.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2736 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2737 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Rhagfyr .Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2738 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :

a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Rhagfyr)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Rhagfyr)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Rhagfyr)
ch) HMRC (Treth)- £89.40 (Mis Rhagfyr)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Rhagfyr)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £52.92 (Mis Rhagfyr)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Rhagfyr) £203.95
f) Gwahaniaeth yn Gyflog y Clerc - Medi hyd Ragfyr - £147.00

2739 Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol)
Wedi trafodaeth lwyr nodwyd y Llythyr.

2740 Parc Pontiets - Nodwyd bod y Clerc wedi gwneud cais i'r Loteri Genedlaethol am nawdd tuag at osod Ffens yn y Parc.

2741 Parcio ar Heol y Meinciau,Pontiets - Cafwyd adroddiad am y broblem parcio ar y palmant ar Heol y Meinciau. Awdurdodwyd y Clerc I gysylltu â'r Heddlu ynglŷn â'r mater hyn.

2742 Heol Tŷ Mawr, Carwe - Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir gosod 'Grid Haearn' ar yr hewl i helpi symud y dŵr.

2743 Cyflymder Traffig yng Ngharwe - Penderfynwyd cysylltu â'r heddlu ynglŷn â chyflymder traffig yng Ngharwe.

Cyfarfod nesaf:- 7fed Chwefror 2022 – Neuadd Pontiets

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……